

Cyngor Cymuned Llanfrothen  
**COFNODION CYFARFOD ARBENNIG GORFFENNAF 2019**  
25 Gorffennaf 2019 7.30 Canolfan Gymdeithasol Llanfrothen

**1. YMDDIHEURIADAU**

Nyfain Wynn

**2. DATGAN DIDDORDEB**

Dim

**3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Bydd cofnodion cyfarfod 24 Mehefin ac 1 Gorffennaf yn cael eu cadarnhau yng nghyfarfod Medi 2019.

**PRESENNOL :**

Cynghorwyr: Nia Povey, Rhydwen Roberts, Glyn Griffiths, Llio Griffiths, Richard Jones, Ifor Jones  
Cadeirio: Dafydd Watts

Clerc: Huw Llwyd Rowlands

**4. TRAFODAETH AR YMATEB I LYTHYR SWYDDFA  
ARCHWILIO CYMRU DYDDIEDIG 13 MEHEFIN 2019**

Trafodwyd y llythyr draft a baratowyd gan y Clerc, ac sydd i'w ddanfon at Swyddfa Archwilio Cymru erbyn 31 Gorffennaf 2019.

Awgrymwyd rhai newidiadau, ac fe gytunwyd y byddai'r llythyr yn cael ei ddiwygio a'i ddanfon at bawb am sylwadau pellach.

Gofynnwyd am ymateb erbyn diwedd yr wythnos fel bod amser i wneud unrhyw ddiwygiadau cyn 31 Gorffennaf 2019.

Cytunwyd fod llawer o'r hyn yr oedd Swyddfa Archwilio Cymru yn anfodlon nad oeddynt wedi eu gwireddu, bellach wedi eu rhoi ar waith, er bod hynny wedi diwedd blwyddyn ariannol 2018/19. Y rhain yw:

- Asesiad Risg
- Rheolau Sefydlog
- Rheolau Ariannol
- Cytundeb Cyflogaeth i'r Clerc, a thalu TWE
- Cod Ymddygiad – ond bod angen ei ddiweddarau i ystyried diwygiadau cyfreithiol 2016

## **5. Ffurflen Flynyddol 2018/19**

Cwblhawyd yr Archwiliad Menwol gan Gyngor Gwynedd, ac felly mae angen cwblhau a chymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2018/19.

Nododd Archwiliad Menwol Cyngor Gwynedd, y materion isod sydd angen tynnu sylw tuag atynt, a gweler isod hefyd ymateb y cyngor cymuned iddynt:

- fod TWE yn cael ei weithredu ers Ebrill 2019
- fod yna un Anfoneb ar goll sef Anfonebn am £100 i drwsio wal y fynwent
- fod bwriad i hawlio TAW cyn diwedd blwyddyn ariannol 2020, gam nad yw'r symiau TAW yn rhai mawr
- roedd y siec a oedd wedi ei harwyddo a heb ei chwblhau yn y llyfr siec, ac wedi ei llofnodi gam ddau lofnodai, ac angen trydydd llofnod cyn y byddai'r siec yn ddilys
- cydnabyddir nad yw'r Cod Ymddygiad yn cyfeirio at ddiwygiadau 2016, ond mae ferswin Newydd o'r Cod Ymddygiad wedi ei ddrafftio sy'n ymgorffori newidiadau 2016, a gobeithir cymeradwyo y rhain yng nghyfarfod Medi 2019.
- byddwn yn diwygio'r gofrestr asedau yng nghyfarfod mis Medi 2019
- bydd y gofrestr buddiannau yn cael ei roi ar y we

Cafwyd trafodaeth ar y rhestr asedau, ac fe gytunwyd mai rhoddion oed dy ddwy fainc, gyda eu gwerth ariannol yn debygol o fod yn isel iawn, tua £100 yr un ar y mwayf.

Mae hysbysfwrdd Croesor yn debygol o fod gwerth tua £150, ac un y Siop yn Llanfrothen tua £100.

Mae'r faner a'r polyn Newydd gwerth £365.

O ran y fynwent, yna anodd iawn yw rhoi gwerth arni heb dalu prisiwr allanol. Awgrymwyd y dylid gofyn i Un Llais Cymru am gyngor parthed hyn.

## **6. MATERION ERAILL**

### **6.1 Torri Coed y Fynwent**

Cytunodd y Cyngorydd Richard Jones i wneud trefniadau I gael y coed sy'n gordyfu yn y fynwent eu torri.

### **6.2 Canllaw tu cefn i Siop Llanfrothen**

Cytunwyd y dylid rhoi y canllaw Newydd ar y llwybr sydd yn rhedeg y tu cefn l'r siop fel rhodd i Fenter Llanfrothen